Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Garth Olwg

**Y Brif Ffordd**
**Pentre'r Eglwys**
**Pontypridd**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF38 1DX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Garth Olwg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Garth Olwg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Pob Oed |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1249 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 1064 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 54 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 131 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd mewn ysgolion pob oed yw 21.6%) | 8.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion pob oed yw 12.7%) | 6.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 36% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 02/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 20/03/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Ychydig o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl pan maent yn cychwyn yn y meithrin neu'r dosbarth derbyn. Dros amser, maent yn datblygu geirfa a dealltwriaeth gadarn o'r iaith a'i chystrawen ac mae hyn yn eu galluogi i fynegi eu hunain yn eglur ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dangos parch at ei gilydd, at athrawon ac at ymwelwyr i'r ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion, yn bennaf ym Mlynyddoedd 9-11, yn drafferthus ac yn arddangos agweddau negyddol at ddysgu ac at eraill. Er bod llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, maent yn nodi bod ymddygiad rhai disgyblion yn ystod amser egwyl a chinio yn peri gofid iddynt. Mae cyfraddau presenoldeb, yn cynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim, yn parhau'n isel ers cyfnod y pandemig.

Ceir amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan a chyfrannu at fywyd yr ysgol trwy nifer helaeth o glybiau, gweithgareddau drama a fforymau trafod. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau chwaraeon a drama yn ogystal â'r sesiynau 'Siop Siarad' boreol, y Fforwm Cymreictod a'r Fforwm Cydraddoldeb. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cryf yn eu medrau cymdeithasol a'u dealltwriaeth o hawliau dynol a materion pwysig eraill. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn datblygu medrau personol gwerthfawr drwy arwain y fforymau a thrwy wirfoddoli i helpu disgyblion iau yn eu gwersi addysg gorfforol ac mewn sesiynau atgyfnerthu dysgu.

Mae profiadau dysgu hyd at Flwyddyn 8 yn gyffredinol eang a chytbwys. Cynigir arlwy gyfoethog o gyrsiau academaidd a galwedigaethol i ddisgyblion y chweched dosbarth. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 9-11 yn rhy gyfyng, yn enwedig i'r rhai uwch eu gallu ym Mlwyddyn 9 ac i ddisgyblion ag ymgysylltiad gwan ym Mlwyddyn 10 a 11.

Mae'r pennaeth a'i dîm arwain wedi blaenoriaethu Cymreictod a gwella lles disgyblion yn sgil heriau'r pandemig. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau'r Gymraeg ac agweddau disgyblion at ddysgu, yn enwedig yn is i lawr yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r arweiniad strategol ar gyfer gwella ychydig o agweddau eraill o waith yr ysgol yn ddigon cadarn. Mae'r rhain yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a medrau digidol, gwella safonau lles ychydig iawn o ddisgyblion hŷn a sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu gofynion yr holl ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn darparu ystod o gyfleoedd gwerthfawr i athrawon gyd-drafod, gyd-gynllunio a gwneud ymchwil ar gyfer gwella eu hymarfer. Yn sgil hyn, mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion yn eu gwybodaeth bynciol a'u llythrennedd.

Mae arweinwyr yn gosod blaenoriaethau gwella priodol ar gyfer yr ysgol gyfan ac ar gyfer meysydd dysgu a phynciau unigol. Serch hyn, nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i ddeilliannau disgwyliedig wrth lunio camau gweithredu. O ganlyniad, nid ydynt yn gwerthuso llwyddiant unrhyw weithredoedd yn ôl eu heffaith ar safonau a chynnydd disgyblion.

## Argymhellion

A1 Miniogi'r hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod gwell ystyriaeth o effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion

A2 Cryfhau'r arweinyddiaeth strategol ar gyfer y meysydd gwella a adnabuwyd yn yr adroddiad gan gynnwys darpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion

A3 Ehangu'r profiadau cwricwlaidd yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 er mwyn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion a sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu

A4 Gwella presenoldeb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion sy’n cychwyn eu haddysg yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn ddi-Gymraeg neu gyda medrau Cymraeg sy’n is na’r disgwyl o ystyried eu hoedran. Wrth i ddisgyblion symud i fyny drwy'r ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau siarad ac ysgrifennu Cymraeg. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol. Mae llawer o’r disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a phersonol buddiol dros amser. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent oherwydd amrywiaeth o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys presenoldeb gwan, agweddau llai cadarnhaol at ddysgu, ymddygiad gwael neu oherwydd diffygion yn yr addysgu.

Yn eu sesiynau a thros amser, mae llawer o’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth bynciol gadarn. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn llwyddiannus i gyd-destunau newydd. Yn yr ychydig o sesiynau effeithiol iawn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd buan a chryf iawn yn eu gwybodaeth, eu medrau a’u dealltwriaeth. Mae’r disgyblion yn y sesiynau hyn yn cymhwyso’u gwybodaeth yn gelfydd mewn tasgau heriol ac ymestynnol. Er enghraifft, mae disgyblion is i lawr yr ysgol yn defnyddio termau pynciol cymhleth, megis egin, eginblanhigyn, gwreiddiau ac amsugno yn gywir i ddisgrifio camau tyfu planhigyn ffa. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent oherwydd diffyg datblygiad yn eu medrau Cymraeg, medrau llythrennedd a rhifedd neu ddiffyg dyfalbarhad.

Drwyddi draw, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n ofalus ar gyflwyniadau ac ar gyfarwyddiadau athrawon ac mae llawer ohonynt yn gwrando’n astud ar gyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer o’r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl, gan fynegi eu hunain yn eglur a hyderus. Mae hyn yn nodwedd arbennig yn is i lawr yr ysgol lle mae medrau siarad Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn iawn. Maent yn defnyddio geirfa a phatrymau Cymraeg yn gynyddol hyderus ac mae llawer ohonynt yn siarad Cymraeg yn ddigymell ac yn cyfathrebu’n effeithiol â’i gilydd. Mae llawer o’r disgyblion is i lawr yr ysgol yn cyd-drafod syniadau’n aeddfed ac mae ychydig ohonynt yn gwneud hynny’n gelfydd gan ddefnyddio termau pynciol cymhleth yn gywir mewn meysydd dysgu amrywiol. Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion uwch i fyny’r ysgol yn mynegi eu hunain yn eglur, yn gwneud defnydd da o eirfa bynciol ac yn trafod yn briodol. Mae disgyblion uwch eu gallu yn trafod yn hyderus iawn ac yn rhoi eu barn yn glir ac yn adeiladol. Er enghraifft, yn eu gwersi cerdd, mae gan ddisgyblion hŷn afael dda a dealltwriaeth gref o eirfa pwnc er mwyn gwerthuso elfennau cerddorol megis gwead, strwythur offeryniaeth cyweiredd a deinameg darnau cyferbyniol o gerddoriaeth. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn eu gwersi troseddeg yn defnyddio’u geirfa bynciol yn gywrain ac yn mynegi eu hunain yn huawdl wrth ystyried egwyddorion defnyddio tystiolaeth fforensig. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn ansawdd a chywirdeb y Gymraeg a siaredir ar draws yr ysgol. Mae diffygion yng nghywirdeb iaith lleiafrif y disgyblion ac maent yn defnyddio geirfa neu ymadroddion Saesneg yn aml wrth siarad. Yn uwch i fyny’r ysgol, mae ychydig o ddisgyblion yn siarad yn Saesneg â’i gilydd mewn tasgau llafar neu maent

yn dawedog yn ystod sesiynau trafod. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion eirfa gyfyngedig sy’n eu rhwystro rhag mynegi eu hunain yn eglur.

Mae llawer o’r disgyblion yn gwneud datblygiad cryf yn eu medrau llafaredd yn Saesneg gan ddatblygu geirfa cynyddol aeddfed dros amser. Er enghraifft, mae disgyblion is i lawr yr ysgol yn hyderus wrth roi eu barn ar gwestiwn dadleuol ‘a ddylid cyfyngu'r amser y mae plant yn ei dreulio o flaen sgrin?’ Mae disgyblion uwch i fyny’r ysgol yn defnyddio banc geiriau ‘geirfa uchelgeisiol’ i uwchraddio ansawdd eu gwaith llafar wrth gyflwyno’r ddadl fod ‘mwy i Gymru na rygbi’.

Ar y cyfan, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen sylfaenol addas. Maent yn llwyddiannus wrth gywain gwybodaeth a chasglu tystiolaeth o amrywiaeth dda o destunau. Mae llawer o’r disgyblion iau yn darllen ar goedd yn fedrus a hyderus gan roi sylw i nodweddion atalnodi fel dyfynodau ac ebychnodau ac yn aml yn amrywio goslef, llais a chyflymder yn briodol. Maent yn defnyddio technegau darllen buddiol er mwyn eu helpu i ddehongli testunau. Yn eu gwersi Cymraeg, mae disgyblion uwch i fyny’r ysgol yn dadansoddi ystod eang o arddulliau yn hyderus a llwyddiannus, gan gynnig enghreifftiau ac esboniad dros eu hatebion. Yn y gwersi Saesneg, mae llawer yn defnyddio uwch fedrau darllen yn fedrus, er enghraifft i ddehongli nodweddion arddull, trwy adnabod cyffelybiaeth, trosiad a gorfoledd a disgrifio eu pwrpas ac effaith. Yn uwch i fyny’r ysgol, mae disgyblion yn gwneud datblygiad priodol yn eu medrau darllen pan gânt y cyfle mewn ychydig o bynciau ac eithrio’r Gymraeg a Saesneg.

Mae llawer o’r disgyblion ar draws yr ysgol yn trefnu’u gwaith ysgrifenedig mewn paragraffau synhwyrol ac yn mynegi eu syniadau’n glir. Fodd bynnag, mae geirfa Saesneg a chamsillafiadau yn britho gwaith lleiafrif o ddisgyblion. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymarfer ysgrifennu ar gyfer ystod eang o bwrpasau yn eu sesiynau iaith. Er enghraifft, mae llawer o’r disgyblion yn ystyried y gynulleidfa’n ofalus wrth ysgrifennu disgrifiad arswyd yn y Gymraeg neu fynegi barn am leihau gwyliau haf i ysgolion. O oed cynnar, mae llawer o’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o nodweddion iaith, megis ansoddeiriau, arddodiaid, geirfa mynegi barn ac iaith berswadiol ac yn eu defnyddio’n grefftus wrth ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn defnyddio ystod eang o ansoddeiriau i ddisgrifio cymeriadau yn y ffilm ‘Up’ a thechnegau mynegi barn i ddadansoddi cerddi fel Merched Beca. Yn Saesneg, mae llawer o’r disgyblion yn llwyddiannus wrth ysgrifennu erthygl papur newydd am frwydr y teuluoedd Montague a Capulet yn y ddrama Romeo and Juliet. Maent yn dewis geirfa addas i ddiddori’r darllenydd ac yn ysgrifennu dyddiadur dychmygol yn grefftus i ddisgrifio croesawu tîm Cymru yn ôl o Gwpan y Byd. Fodd bynnag, oherwydd cyfleoedd anghyson, nid yw disgyblion uwch i fyny’r ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu i’r un graddau ar draws yr holl feysydd dysgu neu bynciau perthnasol.

Yn gyffredinol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd sylfaenol cadarn. Yn is i lawr yr ysgol, mae llawer o’r disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio termau mathemategol wrth fesur, cyfrifo a defnyddio arian. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dysgu sylfaen yn defnyddio pren mesur yn fedrus i fesur planhigion ac unedau ansafonol fel blociau i gymharu maint traed y cawr yn y stori Jac a’r Goeden Ffa â maint eu traed eu hunain. Yn uwch i fyny’r ysgol, mae llawer o’r disgyblion yn ymarfer eu medrau rhifedd yn briodol o fewn pynciau perthnasol. Maent gan amlaf yn llunio graffiau’n gywir ac yn dehongli siartiau’n briodol yn eu gwersi daearyddiaeth. Mewn gwersi bwyd, mae llawer yn defnyddio’r pedair rheol rhif yn hyderus i gyfrifo a

chymharu'r calorïau mewn 'Bic Mac' a byrgyr iachus. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion uwch i fyny'r ysgol yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn gywir mewn ystod fwy eang o gyd-destunau. Er enghraifft, mae rhai'n defnyddio dulliau anaddas i gynrychioli data fel defnyddio graffiau bar amhriodol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn gwneud datblygiad cadarn iawn yn eu medrau digidol. Er enghraifft, yn y dysgu sylfaen, maent yn defnyddio meddalwedd yn hyderus greu lluniau, gan ddewis siâp, maint a lliwiau yn synhwyrol, ac yn defnyddio teclynnau digidol i gyfateb llun i destun wrth greu cylch bywyd planhigyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn iawn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymarfer medrau digidol sylfaenol mewn ychydig o bynciau yn uwch i fyny'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu amrediad digon eang o fedrau digidol cynyddol.

Pan geir cyfleoedd, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau meddwl buddiol. Er enghraifft, yn eu gwersi daearyddiaeth, mae disgyblion hŷn yn meddwl yn gritigol wrth ystyried gwybodaeth, data a graffiau er mwyn dod i gasgliad am y cynnydd mewn defnydd dŵr ar draws y cyfandiroedd rhwng 1900 a 2010. Oherwydd diffyg cyfleoedd, nid yw disgyblion yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau mewn digon o bynciau a meysydd ar draws y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau creadigol. Mae hyn yn nodwedd gref. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu medrau braslunio da gan dalu sylw gofalus i fanylder gan ddefnyddio tôn ysgafn a thrwm er mwyn pwysleisio rhinweddau amlwg. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau byrfyfyr a dyfeisio gwerthfawr wrth berfformio yn eu gwersi drama. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol buddiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn arddangos medrau modur mân da wrth dorri ar hyd llinell yn ofalus, wrth osod ceiniogau mewn rhes neu osod blociau mewn trefn i greu llwybr. Mae llawer yn hyfedr wrth drin offer gwyddonol yn ofalus, er enghraifft pan maent yn defnyddio techneg aseptig i feithrin bacteria.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at fywyd ysgol, ac mae llawer yn datblygu medrau cymdeithasol cryf wrth ryngweithio â staff, ymwelwyr a chyfoedion. Mae llawer yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn dweud eu bod yn rhydd rhag unrhyw fwlio, a'u bod yn gwybod at bwy i droi pe bai ganddynt bryderon.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar athrawon a'u cyfoedion, yn rheoli eu hymddygiad a chanolbwyntio'n dda mewn gwersi, gan ddangos parch tuag at eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn symud o gwmpas yr ysgol yn bwyllog a threfnus ac yn siarad yn hyderus ag oedolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Er hyn, mae ymddygiad ychydig iawn o ddisgyblion yn llesteirio eu gallu i ganolbwyntio'n llawn ar eu dysgu. Yn ogystal, mae disgyblion yn nodi bod lleiafrif o'u cyfoedion yn arddangos ymddygiadau gwael ar y coridorau ac o amgylch yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n ddiwyd â'u cyfoedion. Wrth weithio'n annibynnol, mae llawer yn dyfalbarhau i gwblhau a llwyddo yn eu tasgau. Yn is i lawr yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu ac yn aml yn awyddus i ysbrydoli eu cyfoedion wrth gyflawni a chyfrannu syniadau. Yn y chweched dosbarth, mae disgyblion fel arfer yn arddangos annibyniaeth gadarn a

gwytnwch amlwg wrth ddyfalbarhau â thasgau heriol a rhoi cynnig ar dasgau ymestynnol.

Mae llawer o'r disgyblion yn dangos diddordeb yn yr hyn a ddysgant ac, ar y cyfan, maent yn cyflwyno eu gwaith yn ddestlus. Er hyn, mae ychydig o ddisgyblion yn cyflwyno gwaith blêr gyda llawysgrifen letchwith. Pan gânt y cyfle, mae llawer yn ymateb i adborth llafar ac ysgrifenedig gan eu cyfoedion ac athrawon. Yn yr enghreifftiau gorau, ble mae'r adborth yn glir a synhwyrol, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd buddiol ohono er mwyn gwella eu gwaith a gwneud cynnydd yn eu medrau.

Mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain ac i gymryd cyfrifoldebau mewn amrywiol fforymau disgyblion fel y 'Fforwm Cydraddoldeb'. Mae disgyblion yn rhannu gwybodaeth fuddiol â llywodraethwyr am agweddau gwahanol o waith yr ysgol yn rheolaidd. Mae'r disgyblion hyn yn cyflawni eu rolau'n angerddol a chydag aeddfedrwydd, gan ddatblygu medrau personol a chymdeithasol gwerthfawr. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn elwa o gyfleoedd eang i ddatblygu eu medrau arwain drwy eu gwaith ar fforymau fel y 'Fforwm Cymreictod'. Mae'r disgyblion hŷn hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli er mwyn cefnogi'r disgyblion ieuengaf i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd, a thrwy weithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos aeddfedrwydd, ac uchelgais. Teimlant eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr ysgol a'u bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Gwerthfawrogant y gefnogaeth fugeiliol ac academaidd a ddarperir, ac yn benodol y gefnogaeth a gânt wrth baratoi at ddewis prifysgolion neu brentisiaethau.

Mae llawer o'r disgyblion yn deall buddion gwneud dewisiadau gwybodus am fwyta a chadw'n iach. Mae lleiafrif y disgyblion yn manteisio ar y cynnig i fynychu clybiau celfyddydol a chwaraeon sydd ar gael yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol. Drwyddi draw, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a hawliau plant drwy wersi, sesiynau boreol a gwasanaethau. Maent yn arddangos sensitifrwydd i bryderon byd-eang ac yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o faterion cyfoes a'u heffaith ar fywyd pobl. Er enghraifft, mae disgyblion is i lawr yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth dda o effaith andwyol plastig ar ein cefnforoedd.

Mae cyfraddau presenoldeb yn parhau'n isel ers y pandemig. Yn ogystal, mae'r bwlch rhwng cyfraddau presenoldeb y disgyblion sy'n gymwys i ginio ysgol am ddim a'u cyfoedion yn uchel ac yn parhau i ehangu. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o'u meysydd dysgu arbenigol. Maent yn sefydlu awyrgylch weithgar a chadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn gefnogol o'r disgyblion, yn annog eu cyfraniad a'u dyfalbarhad ac yn canmol eu hymdrechion.

Mewn llawer o sesiynau dysgu, mae athrawon yn cynllunio tasgau cydlynus sy'n adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y disgyblion yn llwyddiannus. Yn unol â hyn, maent yn dewis y camau dysgu a'r gweithgareddau amrywiol sy'n gweddu orau i'w dosbarthiadau er mwyn symud y dysgu ymlaen. Mae'r athrawon hyn yn rhoi arweiniad clir drwy enghreifftio gwaith sy'n cynnig arfer dda i ddisgyblion ei

hefelychu. Maent yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau atyniadol a buddiol i gefnogi'r dysgu ac yn gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad, cyflawniad a safon yr ymatebion llafar. Gwneir defnydd effeithiol o gymorthyddion dysgu i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion ac mae disgyblion y chweched dosbarth yn cefnogi disgyblion iau mewn sesiynau ymarfer corff. Drwyddi draw, ceir bwrlwm yn y sesiynau dysgu hyn ac mae'r athrawon yn egluro cysyniadau mewn modd hwyliog gan ddatblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r amrywiol weithgareddau a chamau dysgu yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyson a chadarn. Mae llawer o athrawon yn holi'r disgyblion yn dda ac yn defnyddio cyfuniad o gwestiynau byr, bachog ac agored i hybu'r dysgu. Trwy hyn, maent yn gwirio dealltwriaeth, yn sicrhau cyfranogiad da ac yn annog disgyblion i fentro a defnyddio geirfa Gymraeg yn gywir a hyderus ar goedd. Mae ychydig o athrawon yn holi'n effeithiol iawn i ofyn cwestiynau treiddgar a miniog er mwyn procio cof a dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i feddwl yn ddyfnach.

Mewn ychydig iawn o sesiynau, lle mae'r addysgu'n gryf ac effeithiol iawn, mae gan athrawon ddisgwyliadau hynod uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn cynllunio'n gelfydd i gynnwys cyfleoedd gwerthfawr sy'n bodloni anghenion pob disgybl a thasgau sy'n adeiladu'n gynyddol ar eu dealltwriaeth. Mae'r athrawon hyn yn hoelio sylw disgyblion, yn rhoi cyflwyniadau difyr ac yn cynnig profiadau dysgu diddorol a gwerthfawr.

Mewn ychydig o sesiynau, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel ac nid ydynt yn cynllunio tasgau'n ddigon gofalus. Maent yn gosod tasgau sy'n llai heriol neu ailadroddus, yn defnyddio taflenni gwaith neu lyfrynnau sy'n cyfyngu ar ymatebion y disgyblion neu'r rheoli amser yn gaeth sy'n eu hatal rhag addasu'r addysgu yn ôl yr angen. Nid yw'r camau dysgu o fewn y sesiynau hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Mae llawer o athrawon yn cylchu'r ystafell ddosbarth yn rheolaidd er mwyn cynnig cyngor defnyddiol i ddisgyblion ynglŷn â sut i wella eu gwaith. Yn ogystal, maent yn dathlu llwyddiannau trwy rannu arferion o waith da disgyblion gyda'r dosbarth yn ystod y sesiwn ddysgu. Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon yn rhoi sylwadau ysgrifenedig buddiol ar waith disgyblion sy'n tynnu eu sylw at wallau sillafu a gramadeg esgeulus ac yn cynnig cyngor a thargedau ar sut i wella'r gwaith. Ar y cyfan, mae trefniadau asesu uwch i fyny'r ysgol yn gymhleth a dyrys. Mae adrannau yn defnyddio nifer o strategaethau gwahanol er mwyn adrodd ar gryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn deall yn ddigon clir pa mor dda maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r ysgol yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn drwy nosweithiau rieni ac adroddiadau interim a llawn. Mae'r adroddiadau i rieni disgyblion is i lawr yr ysgol yn cynnwys sylw personol a gwerthfawr gan yr athro. Yn uwch i fyny'r ysgol, ceir gwybodaeth am gyflawniad a chynnydd y plentyn, ynghyd â thargedau addas ar sut i wella. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau'n llawn cyfarwyddiadau a chanllawiau hirfaith i gyd-fynd â'r amrywiol ddulliau asesu sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn eu deall. Yn ogystal, mae ansawdd yr adborth a'r targedau mewn adroddiadau uwch i fyny'r ysgol yn amrywio'n fawr rhwng pynciau.

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion llawer o'r disgyblion. Yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig arlwy eang o bynciau academaidd a galwedigaethol sy'n ymateb i ddyheadau'r disgyblion, fel troseddeg,

hyfforddiant chwaraeon a gwyddor feddygol. Fodd bynnag, mae'r amrediad o gyrsiau galwedigaethol i ddiwallu gofynion ychydig o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn gyfyng. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 9 yn colli cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth mewn ychydig o bynciau oherwydd bod y cwricwlwm yn cael ei leihau.

Yn gyffredinol, mae'r cynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion yn eu medrau llythrennedd yn effeithiol. Er enghraifft, ceir cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol yn is i lawr yn yr ysgol ac mewn ychydig o bynciau eraill yn ogystal â Chymraeg a Saesneg yn uwch i fyny'r ysgol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llafar a darllen yn seiliedig ar ddulliau amrywiol a chyfoes. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu medrau digidol a rhifedd sylfaenol mewn ystod eang o feysydd yn is i lawr yn yr ysgol ac mewn lleiafrif o bynciau yn uwch i fyny'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a digidol wedi ei chydlynu'n ddigon strategol ar draws yr holl ystod oedran.

Mae arweinwyr yn adnabod disgyblion sydd â medrau rhifedd a llythrennedd gwan ac yn darparu ymyraethau priodol ar gyfer y disgyblion hyn. Mae'r rhaglenni cefnogi ar gyfer disgyblion is i lawr yr ysgol yn cael eu gwerthuso ac mae'r cynnydd yn cael ei olrhain yn fanwl. Mae nifer o'r ymyraethau ym Mlynyddoedd 7 i 9 wedi'u sefydlu'n ddiweddar iawn ac felly nid yw arweinwyr wedi mesur eu heffaith.

Mae'r ysgol wedi cydweithio â rhanddeiliaid, yn cynnwys disgyblion a rhieni, i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgol yn cydweithio'n ofalus â'r ysgolion partner cynradd i gynllunio'r dilyniant dysgu yn is i lawr yr ysgol ac mae athrawon wedi dechrau cynllunio profiadau dysgu cynyddol wrth i ddisgyblion symud i fyny'r ysgol. Mae athrawon yn arbrofi ag amrywiaeth o egwyddorion addysgeg, gan werthuso'u heffeithiolrwydd ac yna addasu a mireinio eu cynllunio yn unol â hynny. Maent wedi datblygu a threialu unedau gwaith diddorol sy'n seiliedig ar ddatblygu cynnydd yn y medrau.

Mae gwersi iechyd a lles a moeseg yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ym Mlynyddoedd 7,8 a 9. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wedi ei chynllunio'n ddigon cydlynus a strategol i sicrhau darpariaeth gynhwysfawr, gyson a chynyddol i ddisgyblion ar draws yr holl ystod oedran.

Mae cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion mwy abl a thalentog. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn manteisio ar y rhwydwaith Seren, timau 'Rhaglen Rhagoriaeth' i rannu gwybodaeth ac adnoddau, a phosteri 'Hafan Her' sy'n cynnwys codau QR i weithgareddau ymestynnol ar draws y meysydd dysgu. Mae cynllun 'Siop Siarad' yn ystod cyfnodau cofrestru yn uwch i fyny'r ysgol yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd amrywiaeth a thrafod materion lleol a rhyngwladol o bwys megis hawliau merched yn Qatar. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol eraill i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd amrywiaeth. Er enghraifft, maent yn astudio hanes a phrofiadau cymunedau pobl Dduon yn y gwersi dyniaethau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo Cymreictod a hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn egnïol a defnyddir systemau megis 'tocynnau iaith' i wobrwyo defnydd o'r iaith yn y dosbarthiadau ac yn gymdeithasol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus drwy gyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau amrywiol fel yr Eisteddfod ysgol, dathlu diwrnod miwsig Cymru a chwarae 'trac yr wythnos'.

Mae teithiau addysgol i Ffrainc, Gwlad Pwyl a Llundain, yn ogystal â theithiau lleol i'r llyfrgell, y Senedd yng Nghaerdydd a Pharc Treftadaeth y Rhondda, yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ehangu eu gorwelion. Trefnir gweithgareddau amrywiol i gyfoethogi'r cwricwlwm, megis gwersi Mandarin, gweithdai samba a chynhyrchiad o'r sioe gerdd 'Nôl i'r 80au'. Yn ogystal, cynhelir amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol sy'n rhoi profiadau gwerthfawr i'r disgyblion, er enghraifft clybiau dawns, dartiau a thecstilau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn blaenoriaethu lles disgyblion a staff ac yn llwyddo i greu amgylchedd ddysgu gefnogol. Mae gan staff adnabyddiaeth dda o'r disgyblion ac maent yn meithrin perthynas waith gynhaliol. At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth cefnogi lles emosiynol i ddisgyblion yn werthfawr. Mae'r ardaloedd penodol, megis yr 'Hwb Dysgu', y 'Lolfa LEGO' a 'Dosbarth y Bont' yn diwallu anghenion unigol disgyblion yn bwrpasol. Mae staff yn darparu cefnogaeth briodol i unigolion, ac yn olrhain lles ac agweddau at ddysgu grwpiau o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio ag asiantaethau allanol yn fwriadus er mwyn sicrhau bod y disgyblion mwyaf bregus yn derbyn cefnogaeth sy'n ymateb i'w hanghenion.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a'r tîm ADY yn cefnogi disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol. Maent yn cyfathrebu'n gyson â staff a rhieni, er enghraifft drwy wefannau pwrpasol a digwyddiadau buddiol fel boreau coffi. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth rhieni o sut i gefnogi eu plant. Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant amserol i staff er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth o'r dulliau mwyaf effeithiol i gynllunio ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio'n glir, wedi ei chostio'n effeithiol ac yn ymateb i anghenion cyfredol disgyblion. Trwy hyn, mae staff yn darparu rhaglenni cefnogi gwerthfawr i ddisgyblion unigol a grwpiau bychain i ddatblygu eu medrau cymdeithasol, llythrennedd a rhifedd. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i adnabod anghenion dysgu ychwanegol unigolion ac olrhain eu cynnydd yn erbyn eu targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol. Mae'r CADY a'r tîm, mewn partneriaeth â'r disgybl a'i rieni, yn adolygu'r cynlluniau yn unol â'r gofynion.

Mae trefniadau ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn addas. Mae'r ysgol yn trefnu profiadau amrywiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb, empathi a dathlu amrywiaeth fel rhan o'r cwricwlwm. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o'u hawliau nhw eu hunain ac eraill, er enghraifft trwy weithgareddau diddorol fel rhan o ddathliadau 'mis hanes pobl Dduon'. Yn ogystal, trwy'r sesiynau 'Siop Siarad' yn y cyfnodau cofrestru, a thrwy wasanaethau, mae staff yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cyfoes a byd eang. Mae hyn yn ei dro yn dwysáu dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion o drin pobl eraill gyda pharch a thegwch. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer addoli ar y cyd.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu dealltwriaeth o hunaniaeth a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae staff is i lawr yr ysgol yn arddel balchder disgyblion yn eu hardal leol a'u gwlad yn hynod lwyddiannus trwy amrywiaeth o ddulliau creadigol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddefnydd digymell disgyblion o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Darperir arlwy briodol o weithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, mae'r clybiau chwaraeon a pherfformiadau celfyddydol yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu eu hunanhyder.

Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain mewn amrywiaeth berthnasol o gynghorau a fforymau, er enghraifft y fforwm Cymreictod, y fforwm eco a'r cyngor ysgol. Drwyddi draw, mae aelodau'r fforymau hyn yn caffael barn eu cyfoedion yn briodol yn ystod y cyfnodau cofrestru, er enghraifft trwy gyfrwng holiaduron perthnasol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion o hyd yn derbyn gwybodaeth amserol am waith y fforymau hyn. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion y chweched dosbarth i gyfrannu'n fuddiol at fywyd yr ysgol, er enghraifft drwy arwain a chefnogi disgyblion Blwyddyn 7 mewn sesiynau atgyfnerthu dysgu, 'Cyn ac ôl ddysgu'.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth addas i ddisgyblion wneud dewisiadau pynciau wrth drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, nid oes arweiniad digonol i gefnogi dewisiadau cwricwlaidd disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 8. Yn y chweched dosbarth, mae disgyblion yn derbyn cyngor ac arweiniad buddiol wrth iddynt ystyried a chynllunio eu camau nesaf ar gyfer eu dyfodol.

Mae gan yr ysgol systemau olrhain presenoldeb ac ymddygiad priodol ac mae trefniadau addas ar waith i weithredu'n amserol gydag absenoldebau cyson ac ymddygiad annerbyniol. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn cael yr effaith ddymunol ar wella presenoldeb cyffredinol nac ymddygiad ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae trefniadau diogelu plant yr ysgol yn briodol. Mae staff yn cael hyfforddiant statudol yn rheolaidd sy'n golygu eu bod yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Ceir trefniadau pwrpasol iddynt adrodd ar unrhyw bryder ac mae arweinwyr perthnasol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol perthnasol, lle bo angen.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar gydweithio fel un gymuned i annog uchelgais a meithrin parch. Gyda'i dîm arwain, mae'n llwyddo i wireddu'r dyhead o greu ethos Cymreig amlwg ar draws yr ysgol, a chreu diwylliant cadarn o ddiogelu. Mae arweinwyr yn cynnal timau sy'n cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae gan yr holl staff ddealltwriaeth addas o flaenoriaethau lefel uchel yr ysgol, fel yr angen i hyrwyddo Cymreictod a lles disgyblion. Yn yr arferion cryfaf, mae arweinwyr yn perthnasu'r blaenoriaethau strategol i'w meysydd cyfrifoldeb yn briodol. At ei gilydd, mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o eraill. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn llwyddo'n ddigon cyson i fynd i'r afael â'r ychydig o achosion lle mae disgyblion hŷn yr ysgol yn ymddwyn yn amhriodol. Mae gan arweinwyr ar draws yr ysgol dueddiad i ganolbwyntio ar faterion gweithredol dydd i ddydd. Nid ydynt bob tro'n gweithredu'n ddigon strategol i ddylanwadu'n rymus ar rai agweddau o waith yr ysgol fel sicrhau bod y cwricwlwm yn gynhwysol ac yn ymateb yn llawn i ofynion yr holl ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso gwerthfawr sy'n cynnwys craffu ar waith disgyblion, teithiau dysgu ac arsylwi sesiynau. Maent wedi eu hamserlennu'n addas ar gyfer bob tymor. Mae arweinwyr yn crynhoi cryfderau a meysydd i'w gwella o'r gweithgareddau sicrhau ansawdd ac yn nodi camau gweithredu defnyddiol, er enghraifft i gryfhau adborth athrawon ac ymateb disgyblion i'r adborth. Maent yn canfod barn disgyblion yn briodol ar agweddau penodol ac, ar y cyfan, maent yn ymateb i'w canfyddiadau. Er enghraifft, gwnaethpwyd newidiadau i'r ddarpariaeth i hybu Cymreictod ar draws yr ysgol yn dilyn holiadur i ddisgyblion. Mae

arweinwyr yn caffael barn rhieni yn addas ac yn ymateb yn briodol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys addasu eu dulliau o gyfathrebu a gwneud addasiadau i'w paratoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr ar bob lefel yn adnabod cryfderau a gwendidau yn addas o ran y ddarpariaeth ond tueddant i ganolbwyntio'n bennaf ar yr addysgu. Maent yn cynnig sylwadau priodol ar agweddau disgyblion at ddysgu ond prin yw'r canfyddiadau ynghylch effaith y ddarpariaeth ar eu safonau a chynnydd.

Mae blaenoriaethau'r ysgol yn deillio'n briodol o brosesau hunanwerthuso ac mae'r cyswllt rhwng y canfyddiadau a chynlluniau gwella yn amlwg. Ar y cyfan, mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer gwella yn cynnwys trefniadau priodol ar gyfer dyrannu cyfrifoldebau a therfynau amser synhwyrol. Mae cysondeb yn y cynlluniau gwelliant ar draws yr ysgol gydag adrannau yn ymateb i flaenoriaethau'r ysgol gyfan ac mewn ychydig o achosion yn pennu blaenoriaethau adrannol ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu bob tro'n ddigon manwl a chlir. Yn ogystal, nid yw arweinwyr yn nodi deilliannau disgwyliedig ac mae hyn yn llesteirio eu gallu i werthuso llwyddiant y camau gweithredu.

Mae gan yr ysgol drefniadau i fonitro'r cynlluniau datblygu'n rheolaidd ac mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yn seiliedig ar yr arfarniadau mwyaf diweddar. Serch hynny, nid yw'n amlwg beth fu'r camau nesaf mewn achosion ble mae'r cynnydd yn gyfyngedig. Yn yr achosion gorau, mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol wedi arwain at welliannau, er enghraifft wrth ddarparu cefnogaeth i ddatblygu arweinwyr a gwella ansawdd yr adborth a roddir i ddisgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn herio a chefnogi'r ysgol yn briodol. Maent yn derbyn gwybodaeth addas gan arweinwyr, ac mae disgyblion yn cyflwyno ar agweddau gwahanol o waith yr ysgol yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn egluro prosesau'r ysgol i hybu siarad Cymraeg, ac yn egluro sut maent wedi codi ymwybyddiaeth eu cyfoedion o hawliau pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu (LHDTC+). Yn dilyn y pandemig, mae'r llywodraethwyr yn dechrau ymgymryd â mwy o ddyletswyddau ymarferol, fel mynychu taith ddysgu iechyd a diogelwch. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn ymateb i'r gofynion statudol parthed bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pennaeth, y rheolwr cyllid a'r llywodraethwyr yn cydweithio i reoli a monitro'r gyllideb a blaenoriaethu gwariant yn briodol. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi sylw teilwng i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, maent yn clustnodi arian grantiau yn bwrpasol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i leihau effaith tlodi trwy gyfrannu at gostau ymweliadau addysgol a darparu deunyddiau i hybu medrau creadigol a digidol disgyblion.

Mae gan yr ysgol gyfundrefn addas ar gyfer rheoli perfformiad staff, sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i athrawon hunanwerthuso eu harferion yn erbyn y safonau proffesiynol. Mae'r ysgol yn cynnig amrediad eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff sy'n cynnwys cydweithio ag ysgolion eraill a darparwyr allanol priodol. Mae'r wefan 'Dysgu ac Addysgu' gynhwysfawr yn cynnwys llu o adnoddau pwrpasol ar gyfer datblygu dulliau addysgu. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i staff i ddatblygu fel arweinwyr trwy fentora mewnol a chyrsiau allanol. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd buddiol i athrawon ar draws yr ysgol gydweithio mewn triawdau i ymchwilio i agweddau o addysgeg. Caiff eu canfyddiadau eu rhannu â staff mewn 'Ffair Ymchwil'

flynyddol. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â thair ysgol arall fel ysgolion arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon ac yn cyfrannu'n briodol at arwain diwrnodau hyfforddi. Mae arweinwyr yn meithrin a chynnal partneriaethau buddiol gydag eraill. Er enghraifft, mae rhieni'n cymryd rhan mewn cyfweliadau ffug ar gyfer disgyblion hynaf yr ysgol, ac mae cynrychiolwyr o'r byd gwaith lleol yn cyflwyno gwybodaeth am broffesiynau gwahanol i'r holl ddisgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 25/05/2023